**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Cyngor y Dyfodol a Thrawsnewid

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 19 Rhagfyr 2017 am 9.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd E T Kirchner (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C A Holley | M B Lewis | S Pritchard |
| L J Tyler-Lloyd | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Caritas Adere | Gweithredydd Cyfreithiol |
| Geoff Bacon | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Eiddo |
| Andrew Hopkins | Ymgynghorydd Gwella Busnes |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Vicky Thomas | Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: B J Rowlands ac A H Stevens

---

**20 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**21 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir.

**22 Cyflwyniad - Gwasanaethau yn y Gymuned.**

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Gwella Busnes gyflwyniad ar 'Wasanaethau yn y gymuned'.

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys y canlynol: -

- Beth yw "Gwasanaethau yn y gymuned"
- Y darlun mwy
- Beth yw canolfannau cymunedol?
- Egwyddorion allweddol

- Manteision canolfannau cymunedol
- Ardaloedd peilot
- Cynnydd
- Datblygiad prototeip
- Cylch Comisiynu Canolfannau
- Amserlenni

Nododd Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Eiddo fod yr Adolygiad o Asedau wedi ffurfio'r sail ar gyfer y dewis o ardaloedd peilot.

Gofynnwyd cwestiynau i'r Swyddogion Cyflwyno a ymatebodd iddynt yn briodol. Cwestiynau a thrafodaethau dan sylw: -

- Llywodraethu'r canolfannau
- Hyrwyddo a chysylltu â phartneriaid
- Priodoldeb ardaloedd peilot sy'n seiliedig ar yr Adolygiad o Asedau
- Amserlenni ar gyfer ardaloedd peilot a chyflwyno mwy ohonynt
- Ystyriaeth o'r marchnata a'r brandio gorau
- Ystyriaeth o gynnwys y gymuned - trafferthion a chostau posib

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r tîm am ei waith a'i ymdrech

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys y cyflwyniad.

## 23 Y Diweddaraf am y Gweithdy Caffael. (Llafar)

Rhoddodd Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy ddiweddariad mewn perthynas â'r Gweithdai Caffael. Nodwyd bod 17 Ionawr 2018 ac 14 Chwefror 2018 wedi'u nodi ar gyfer gweithdy 1 a 2 yn ôl eu trefn. Cylchredwyd trosolwg o'r Gweithdai Caffael a darparwyd crynodeb yng nghais y cyfarfod.

**Penderfynwyd** nodi dyddiadau'r gweithdai.

## 24 Amserlen ddrafft ar gyfer busnes.

Darparodd yr Ymgynghorydd Gwella Busnes amserlen ddrafft ar gyfer busnes ar gyfer y cyfarfodydd sydd i ddod.

**Penderfynwyd** nodi'r amserlen ddrafft ar gyfer busnes.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.35 am

**Cadeirydd**